# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 5 Chwefror 2014**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(178)v5

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (15 munud)

Gweld y Cwestiynau

**Cwestiwn Brys**

**Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â chyflogau a phensiynau uwch swyddogion cynghorau yn sgîl adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru?

**Cynnig i atal Rheol Sefydlog 12.20(i) a Rheol Sefydlog 11.16 er mwyn caniatáu i NNDM5427 gael eu hystyried (5 munud)**

**NNDM5428 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud

yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM5427 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ar ddydd Mercher, 5 Chwefror 2014.

**4 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar y Bil Plant a Theuluoedd mewn perthynas ag ysmygu mewn cerbydau preifat sy'n cludo person neu bersonau o dan 18 oed (30 munud)**

**NDM5424 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Plant a Theuluoedd sy'n ymwneud â phrynu neu ymgais i brynu tybaco neu bapurau sigarét ar ran personau sydd o dan 18 oed a gwahardd gwerthu cynhyrchion nicotin i bersonau o dan 18 oed a throseddau, amddiffyniadau, cosbau a chamau gorfodi etc cysylltiedig i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2014 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii).

I weld copi o'r Bil ewch i:

http://services.parliament.uk/bills/2013-14/childrenandfamilies.html [Saesneg yn unig]

**5 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Academi Heddwch Cymru (60 munud)**

**NDM5420 William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar sefydlu Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2013.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Deisebau
Ymateb Llywodraeth Cymru

**6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5421 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu gwella cysylltedd ledled Cymru wledig i sicrhau mynediad effeithiol i wasanaethau.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddechrau'r cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd cysylltedd symudol a band eang i ddatblygu economaidd a chymdeithasol mewn ardaloedd gwledig ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar y system gynllunio er mwyn sicrhau bod rheolau cynllunio yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu seilwaith digidol.

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi manteision cysylltiad band eang cyflym iawn i'r economi wledig, a hefyd yn nodi'r effeithiau economaidd negyddol y mae mannau gwan ar gyfer derbyn band eang ac oedi cyn cyflwyno band eang cyflym yn eu cael ar ardaloedd gwledig.

**Gwelliant 3 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cynllun cenedlaethol yn cael ei sefydlu i gyflwyno signal symudol 4G ym mhob rhan o Gymru.

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y rhwystrau penodol y mae pobl ifanc yn eu hwynebu mewn ardaloedd gwledig o ran cael addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i asesu ffyrdd o wella cysylltedd trafnidiaeth yng nghefn gwlad er mwyn cynnig mwy o gyfleoedd i gael prentisiaethau.

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod cysylltedd band eang gwael yn cyfyngu mynediad at wasanaethau bancio ar-lein mewn ardaloedd gwledig, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys archwiliad o strwythur banc cymunedol yn y cylch gorchwyl ar gyfer cynnal adolygiad pellach o fanc datblygu ar gyfer Cymru, er mwyn cynnal presenoldeb banciau lleol mewn cymunedau gwledig.

**7 Dadl Plaid Cymru (60 munud)**
**NDM5422 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod potensial sylweddol adnoddau naturiol Cymru ac yn credu y dylai rheolaeth lawn dros y defnydd ohonynt gael ei datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu popeth ar ôl 'adnoddau naturiol Cymru'.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid defnyddio adnoddau naturiol Cymru mewn modd sy'n gynaliadwy o ran yr amgylchedd a'r economi er budd tymor hir pobl Cymru.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pwysigrwydd cynlluniau ynni cymunedol i fanteisio ar ein hadnoddau naturiol yng Nghymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'r camau gweithredu y bydd yn eu cymryd i wella rhaglen Ynni'r Fro yn dilyn cyfres o argymhellion yn adroddiad Gwerthusiad Canol Tymor Ynni'r Fro.

Mae adroddiad Gwerthusiad Canol Tymor Ynni'r Fro ar gael yn:

http://wales.gov.uk/statistics-and-research/evaluation-ynnir-fro/?lang=cy

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu nad yw Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r arbenigedd a'r gallu eto i weinyddu prosiectau ynni ar raddfa fawr.

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cynnal ymchwiliad i sut y gellir datblygu buddion cymunedol prosiectau ynni;

b) cynnal adolygiad o ganiatáu a thrwyddedu prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach; ac

c) gweithio gyda Llywodraeth y DU i edrych ar ffiniau dwr.

**Gwelliant 6 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganiatáu rhagor o leoliaeth o ran defnyddio adnoddau naturiol mewn cymunedau, a rhoi'r un hawliau i bobl Cymru â'r hawliau sydd gan gymunedau yn Lloegr ar hyn o bryd o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011.

**Gwelliant 7 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod camreolaeth Llywodraeth Cymru ar adnoddau pren naturiol ystâd Coedwigaeth Cymru wedi:

a) caniatáu i ardaloedd mawr o goed llarwydd a rhywogaethau coed eraill fod wedi'u heintio o hyd â phytopthora ramorum; a

b) golygu bod clwstwr enfawr o goed llarwydd heintiedig heb eu torri a dwy flynedd o waith wedi cronni yn y rhaglen torri coed.

**Gwelliant 8 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r rhwystrau o ran hyrwyddo ac amddiffyn adnoddau naturiol Cymru a ddaeth yn sgîl y system gynllunio bresennol.

**Gwelliant 9 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod penderfyniadau ynghylch taliadau CAP wedi rhoi ffermwyr Cymru o dan anfantais gystadleuol o'u cymharu â gwledydd datganoledig eraill y Deyrnas Unedig wrth iddynt reoli eu hadnoddau naturiol.

**Gwelliant 10 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod camreoli adnoddau naturiol Cymru yn cyfrannu at ledaenu TB buchol ac yn effeithio ar fywyd gwyllt a chynhyrchu amaethyddol yng Nghymru.

**Cyfnod Pleidleisio**

**8 Dadl Fer (30 munud)**

**NDM5388 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Pobl hyn, twyll a throseddau ar garreg y drws

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 11 Chwefror 2014